YR ATODLEN

Amodau

RHAN 1

Amodau ar weithrediadau adeiladu

Oriau adeiladu

2.—(1) Ni chaniateir gwneud y gwaith adeiladu a restrir yn is-baragraff (2) ond rhwng yr oriau a ganlyn—

(a) 0700 a 1900 yn ystod yr wythnos, a

(b) 0700 a 1300 ar ddydd Sadwrn.

(2) Unrhyw—

(a) symud daear;

(b) drilio, torri neu ffrwydro;

(c) gosod arwyneb caled;

(d) defnyddio cerbydau neu gyfarpar gyda larymau bacio.